# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Dydd Llun, 16 Mai 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd  C.P.Higgins,

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, J.D. James, A.G. Morgan, E.G. Thomas, W.G. Thomas a/ac D.E. Williams.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C.Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
P. Sexton, Y Pennaeth Archwilio, Rheoli Risg a Chaffael
H. Pugh, Y Rheolwr Archwilio a Rheoli Risg
G. Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 10.00 a.m.  – 12.10 p.m.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B.Thomas.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

### 3. ADRODDIAD NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol.**

### 4. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR Y 4YDD MAI, 2016.

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ymwneud ag unigolyn neilltuol neu wybodaeth a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn (Paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r

ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y ceisiadau a ddaethai i law am y swydd. Roedd y budd i'r cyhoedd o ran parchu hawl cyfrinachedd pob ymgeisydd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth honno. Felly ar ôl pwyso a mesur, y farn oedd bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer a gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2016.**

**5. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDD AELOD ALLANOL O'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ymwneud ag unigolyn neilltuol neu wybodaeth a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn (Paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys copïau o'r ceisiadau a ddaethai i law am y swydd. Roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys manylion am fywyd preifat pob ymgeisydd. Roedd y budd i'r cyhoedd o ran parchu hawl cyfrinachedd pob ymgeisydd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth honno. Felly ar ôl pwyso a mesur, y farn oedd bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â thri ymgeisydd ar gyfer swydd aelod allanol â phleidlais o'r Pwyllgor Archwilio.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr,

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR fod y Cyngor Sir yn penodi Mrs Julie James yn Aelod Allanol â Phleidlais o'r Pwyllgor Archwilio am y cyfnod rhwng 1af Gorffennaf 2016 a 30ain Mehefin 2019 a hynny er mwyn bodloni gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**